



**Cyfarfod Bwrdd CHC
a gynhaliwyd ddydd Llun 14 Mai 2018
yn Swyddfeydd Melin ym Mhont-y-pŵl**

Cynhaliwyd cyfarfod o Fwrdd CHC ddydd Llun 14 Mai 2018 yn Swyddfeydd Melin ym Mhont-y-pŵl. Roedd cworwm yn y cyfarfod a chafodd ei fynychu gan 6 aelod bwrdd yn ogystal ag aelodau o Uwch Grŵp Rheoli CHC. Roedd y rhai'n bresennol yn cynnwys: Paula Kennedy (Melin), Scott Sanders (Linc Cymru), Paul Roberts (Newydd), Matt Brown (Annibynnol), Steve Higginson (Cymdeithas Tai Sir Fynwy), a Chris O'Meara (Cadwyn).

Mae'r dilynol yn crynhoi'r eitemau a drafodwyd a phenderfyniadau allweddol a gymerwyd yn y cyfarfod.

Proses Recriwtio Bwrdd: Sefydlir Pwyllgor Enwebiadau o fewn y mis nesaf i oruchwylio'r broses etholiad i lenwi pedair lle gwag ar y Bwrdd fydd yn cynnwys un lle ar gyfer aelod annibynnol. Bydd tri o aelodau cyfredol y Bwrdd yn camu lawr ar gyfer eu hail-ethol, yn unol â'n Herthyglau Cymdeithasu, gyda dau arall yn cael eu penodi i weithio gyda'r Pwyllgor Enwebiadau. Bydd swyddogion CHC yn cysylltu gyda chadeirydd annibynnol i oruchwylio'r Pwyllgor Enwebiadau yn dilyn trafodaeth y Bwrdd a chaiff ei gadarnhau yn y cyfarfod nesaf. **Canlyniad: Mae'r Bwrdd yn bwriadu cwblhau'r broses recriwtio erbyn y CCB nesaf.**

Cynllunio Olyniaeth ar gyfer y Cadeirydd: Bydd Debbie Green, cadeirydd presennol CHC, yn sefyll i lawr o'r swydd yn y CCB nesaf. Gan nad oes neb ar y Bwrdd presennol eisiau cael eu hystyried ar gyfer y swydd, mae'r Bwrdd wedi cytuno ar amlinelliad o ddisgrifiad swydd a manyleb person ar gyfer dibenion recriwtio. Trafododd y Bwrdd p'un a ddylai'r cadeirydd fod yn annibynnol ai peidio. Roeddent yn agored i'r syniad o ymgeisydd annibynnol yn sefyll ar gyfer y swydd, a chaiff hyn ei adlewyrchu yn y pecyn recriwtio, ond croesawir ceisiadau o fewn a thu allan y sector, er mwyn peidio cyfyngu'r maes posibl ar gyfer olynydd. **Canlyniad: Mae'r Bwrdd yn anelu i benodi Cadeirydd newydd erbyn y CCB nesaf.**

Diweddariad Gofod Swyddfa: Mae Swyddogion CHC yn gwerthuso'r defnydd o ofod swyddfa gwag ar y llawr cynaf ac yn edrych ar yr opsiynau posibl y mae'r gofod yn ei gynnig gan hefyd weithio'n agos gydag asiantau tai i farchnata'r llawr cyntaf. Nodwyd fod gan CHC 4 blynedd ar ôl ar y lês heb unrhyw gymalau torri o fewn y cyfnod hwnnw. **Canlyniad: Uwch Grŵp Rheoli i hysbysu'r Bwrdd gyda chynnydd ar y gofod.**

Adolygu Polisi Tai: Rhoddodd swyddogion wybodaeth i'r Bwrdd ar y cyhoeddiad diweddar am yr Adolygiad Tai a'r panel y galwodd CHC amdano. Sefydlir tîm prosiect o fewn CHC i drefnu amrywiaeth o ddigwyddiadau ar gyfer staff ar bob lefel o'n haelod sefydliadau ac i gefnogi cynllun ymgysylltu Llywodraeth Cymru. **Canlyniad: Bydd tîm y prosiect yn cwrdd ym Mehefin i ddechrau llunio meysydd ymgysylltu gydag aelodau.**

Effeithlonrwydd Bwrdd: Cynhaliwyd cyfarfod o is-bwyllgor o'r Bwrdd i drafod llywodraethiant CHC a sut i alinio arfer cyfredol gyda'r Cod Llywodraethiant a awgrymir i'r sector. **Canlyniad: Bydd y Bwrdd yn parhau i werthuso ei effeithlonrwydd a llywodraethiant drwy ganiatáu amser ar gyfer adfyfrio ar ddiwedd pob cyfarfod.**

Cynhelir cyfarfod nesaf y bwrdd ar 21 Mehefin yn swyddfa CHC yng Nghaerdydd.